

# Adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

Crynodeb gan Chwarae Cymru

www.chwarae.cymru

**Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o *Adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae*.**

**Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Chwarae Cymru ac fe'i cefnogir gan bapur cefndir manwl: www.chwarae.cymru/play_policy/adolygiad-chwarae**

## Mae chwarae'n bwysig

**Mae cael digon o gyfleoedd i chwarae bob dydd yn cyfrannu at hapusrwydd ac iechyd plant.**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cydnabod bod gan bob plentyn yr hawl i chwarae. Mae chwarae'n hawl i blant ble bynnag maen nhw – adref, mewn gofal plant, yn eu cymdogaeth leol ac yn yr ysgol. Mae gan blant hawliau eraill sy'n ymwneud â chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr hawl i ddweud eu dweud a derbyn gwrandawiad
- yr hawl i gwrdd gyda ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau.

Yn 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer chwarae plant trwy'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

## Am yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

Mae Llywodraeth Cymru'n deall bod chwarae'n bwysig i bob plentyn ac mae wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod Chwarae'n wlad sy'n gyfeillgar at chwarae. Yn 2023, cwblhaodd Llywodraeth Cymru yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, wnaeth edrych ar ba mor dda y mae Cymru'n cyflawni ei ymrwymiad i chwarae.

Fel rhan o'r adolygiad, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, wnaeth ddod ag oedolion at ei gilydd o wahanol broffesiynau sy'n credu bod plant a'u chwarae'n bwysig. Fe wnaeth y grŵp hwn ddynodi a siarad am chwe phrif thema.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Plant yng Nghymru, trwy eu prosiect Cymru Ifanc, siarad gyda phlant er mwyn casglu eu sylwadau. Mae'r sylwadau hyn wedi chwarae rhan bwysig yn yr adolygiad hwn. Fe wnaeth yr adolygiad dynnu sylw at bethau sy'n atal chwarae, er enghraifft:

- traffig a chymdogaethau prysur
- ofnau rhieni
- diffyg amser i chwarae
- agweddau oedolion.

Fe wnaeth y grŵp llywio greu rhestr o argymhellion am yr hyn allai Llywodraeth Cymru ei wneud i'w gwneud hi'n haws i bob plentyn yng Nghymru chwarae. Chwarae Cymru wnaeth greu'r adroddiad ar ran Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.



## Thema 1: Deddfwriaethau allweddol

Mae'r thema hon yn cwmpasu'r deddfau a'r polisïau sy'n ymwneud â'r hawl i chwarae. Byddai alinio'r rhain yn helpu mwy o blant i chwarae'n amlach.

### Am y thema hon

Yn 2004, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried CCUHP pryd bynnag y byddai'n datblygu polisïau sy'n effeithio ar blant.

Mae'r adolygiad am wneud yn siŵr bod pob polisi yn ei gwneud hi'n hawdd i blant chwarae. Yng Nghymru, mae deddfau eraill sy'n cysylltu gyda'r polisïau a'r rhaglenni sy'n ymwneud â chwarae plant. Mae hyn yn cynnwys deddfau am:

- blant, teuluoedd a thlodi
- hawliau plant
- lles cenedlaethau'r dyfodol.

**Yr hyn ddywedodd plant a phobl ifanc oedd yn rhan o'r adolygiad**

- Mae trafferthion gyda thrafnidiaeth yn golygu bod rhai ohonynt yn ei chael yn anodd mynd i glybiau, cynlluniau chwarae a mannau eraill ble gallan nhw chwarae.
- Mae angen i oedolion ddeall bod chwarae'n dda i bob plentyn, yn cynnwys plant hŷn.

### Argymhellion y grŵp llywio

**Argymhelliad 1: Mabwysiadu agwedd strategol tuag at ddigonolrwydd chwarae ar draws holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru.**

Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod polisïau mewn ystod o wahanol adrannau o'r llywodraeth – yn cynnwys cynllunio, priffyrdd, teithio llesol, addysg, gofal plant a chwarae – yn cydnabod yr holl gysylltiadau strategol gyda digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod offerynnau polisi Llywodraeth Cymru'n cynnwys mesurau i gefnogi gallu plant i wneud y gorau o gyfleoedd i chwarae.**

Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod dogfennau canllaw sy'n ymwneud â phlant, teuluoedd a chymunedau'n cydnabod pwysigrwydd chwarae plant fel thema drawsbynciol. Byddai'n cynnwys canllawiau am weithredu a monitro unrhyw raglenni sydd wedi'u hanelu at blant, teuluoedd a chymunedau.

## Thema 2: Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chyllid

Mae'r thema hon yn cwmpasu pwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu ar gyfer chwarae, yn cynnwys neilltuo arian ar gyfer chwarae.

### Am y thema hon

Mae Llywodraeth Cymru am i Gymru fod yn wlad sy'n gyfeillgar at chwarae sy'n darparu digon o gyfleoedd i blant chwarae bob dydd. Er mwyn helpu i hyn ddigwydd, mae wedi creu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, deddf sy'n golygu bod angen i gynghorau:

- gwblhau Asesiad Digonolrwydd Chwarae, bob tair blynedd, sy'n edrych ar yr holl gyfleoedd i chwarae yn eu hardal
- gweithio gyda chynghorau a sefydliadau eraill i'w gwneud hi'n haws i blant chwarae.

Hefyd, pan mae'n gallu, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i gynghorau a sefydliadau eraill i'w helpu i ddarparu cyfleoedd i chwarae.

**Yr hyn ddywedodd plant a phobl ifanc oedd yn rhan o'r adolygiad**

- Maen nhw am fod yn rhan o gynllunio gwasanaethau chwarae.

### Argymhellion y grŵp llywio

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer adfer wedi'r pandemig a'r argyfwng costau byw yn ystyried hawl plant i chwarae.**

Bydd hyn yn helpu i atgyfnerthu'r effaith pwysig mae chwarae'n ei gael ar les corfforol ac emosiynol plant.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod cyllid ac adnoddau digonol ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol yn ei chyfanrwydd.**

Bydd hyn yn helpu i ddynodi ariannu ar draws yr ystod o feysydd polisi sy'n effeithio ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.

**Argymhelliad 5: Cefnogi trosglwyddiad rhaglen wybodaeth i'r cyhoedd am yr hawl i chwarae.**

Bydd hyn yn helpu i bwysleisio pwysigrwydd chwarae i bawb yng Nghymru, yn cynnwys rhieni, gofalwyr a chymunedau.

**Argymhelliad 6: Defnyddio'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n ehangach i gwmpasu ystod eang o gyrff eraill.**

Bydd hyn yn cadarnhau pwysigrwydd chwarae i gyrff cyhoeddus ar draws ystod o wahanol sectorau, yn cynnwys: iechyd, addysg, parciau cenedlaethol, a chynllunio trefol a chymunedol.



## Thema 3: Cyfiawnder gofodol

Mae'r thema hon yn cwmpasu pam a sut y mae angen inni wneud ein cymdogaethau a mannau cyhoeddus eraill yn fwy croesawus i blant chwarae ynddyn nhw.

### Am y thema hon

Mae cyfiawnder gofodol yn golygu sicrhau bod cymdogaethau a mannau cyhoeddus eraill yn addas ar gyfer chwarae a'u bod yn groesawus i blant o bob oed.

Weithiau, bydd chwarae'n digwydd mewn meysydd chwarae neu mewn cynlluniau chwarae. Ond mae cyfiawnder gofodol yn ymwneud â galluogi plant i chwarae a chwrdd gyda'u ffrindiau yn eu cymdogaethau lleol. Mae hyn yn bwysig i bob plentyn, yn enwedig i blant hŷn ac arddegwyr.

**Yr hyn ddywedodd plant a phobl ifanc oedd yn rhan o'r adolygiad**

- Eu hoff le i chwarae yw'r tu allan ac maen nhw eisiau gallu chwarae mwy y tu allan a chael mwy o fannau i wneud hynny.
- Mae rhai grwpiau o blant sydd wedi'u gwthio i'r cyrion yn ei chael yn anos cyrraedd i fannau i chwarae yn eu cymdogaethau.
- Mae rhai oedolion yn negyddol ynghylch plant hŷn ac arddegwyr yn chwarae a chwrdd y tu allan. Mae angen i hyn newid.
- Fe hoffen nhw siarad am a bod yn rhan o ddatblygiadau sy'n berthnasol i'w chwarae.

### Argymhellion y grŵp llywio

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod yr hawl i chwarae wedi ei hymgorffori yn ddigonol mewn offerynnau a phenderfyniadau polisi strategol.**

Bydd hyn yn cefnogi cysylltiadau gwell rhwng y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a deddfwriaeth hawliau plant.

**Argymhelliad 8: Sicrhau bod egwyddor chwarae fel mater o gyfiawnder gofodol yn cael ei chydnabod a'i deall trwy *Bolisi Cynllunio Cymru*.**



Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod canllawiau ar gynllunio cymdogaethau a threfi'n cofio ystyried sut y bydd plant yn symud o amgylch eu cymunedau i chwarae.

**Argymhelliad 9: Sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau plant yn hysbysu'r ffyrdd y mae cymdogaethau'n cael eu cynllunio a'u rheoli.**

Gellid cyflawni hyn trwy gynnal mwy o ymchwil gyda phlant yn eu cymunedau (a elwir weithiau'n ymchwil hyperleol).

## Thema 4: Darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae

Mae'r thema hon yn cwmpasu'r mannau ble bydd plant yn chwarae sy'n cael eu staffio gan weithwyr chwarae. Mae hefyd yn cwmpasu'r deddfau sy'n ymwneud â'r math yma o ddarpariaeth chwarae, sy'n cynnwys:

- cynlluniau chwarae dros wyliau'r haf
- clybiau ar ôl ysgol
- meysydd chwarae antur.

### Am y thema hon

Mae'r adolygiad am wneud yn siŵr bod y mannau hyn yn ddiogel i blant eu mynychu. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gwirio darpariaeth gwaith chwarae ar ran Llywodraeth Cymru, gan edrych ar:

- pryd a ble y mae darpariaeth chwarae'n cael ei redeg
- os yw plant yn cael eu cadw'n ddiogel
- os yw gweithwyr chwarae'n addas i wneud eu swyddi ac wedi derbyn yr hyfforddiant cywir
- bod gan blant a phobl ifanc gyfleoedd da i chwarae.

Ond, ar hyn o bryd, 'does dim rhaid i ddarpariaeth gael ei gwirio:

- os yw'n rhedeg am lai na dwy awr
- os yw'n ddigwyddiad unigol
- os yw'n canolbwyntio ar y celfyddydau, chwaraeon, crefydd neu astudiaethau ysgol.

**Yr hyn ddywedodd plant a phobl ifanc oedd yn rhan o'r adolygiad**

- Maen nhw eisiau mannau i fynd iddyn nhw sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus a diogel.
- Maen nhw'n meddwl y dylai pob darpariaeth gael ei gwirio i wneud yn siŵr ei bod yn ddigon da.




### Argymhellion y grŵp llywio

**Argymhelliad 10: Sicrhau bod trefniadau diogelu digonol mewn lleoliadau gwaith chwarae**

Bydd hyn yn canolbwyntio ar ystyried y ffordd orau i gefnogi lleoliadau gwaith chwarae fel eu bod yn deall sut i gyflawni gofynion diogelu.

**Argymhelliad 11: Adolygu rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd a gorchmynion sy'n ymwneud â gwaith chwarae**

Bydd hyn yn edrych ar ba leoliadau sy'n cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Y nod fydd gwneud gwelliannau ym mhob lleoliad perthnasol.

## Thema 5: Y gweithlu a chymwysterau

Mae'r thema hon am y bobl y mae eu gwaith yn cynnwys cefnogi chwarae plant. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr chwarae ond hefyd bobl eraill all helpu plant i gael y gorau o'u chwarae.

### Am y thema hon

Mae'r adolygiad hwn am wneud yn siŵr bod gan y bobl hyn yr hyfforddiant chwarae cywir. Dylai hyfforddiant chwarae eu helpu i ddeall pa mor bwysig yw chwarae a'r hyn allan nhw ei wneud i greu mwy o gyfleoedd i blant chwarae.

Mae rhywfaint o heriau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cost ac argaeledd hyfforddiant
- amser i fynychu hyfforddiant, pan mae gan rai pobl fwy nag un swydd neu pan maent ond yn gweithio'n ystod y gwyliau
- sgiliau a dealltwriaeth y tiwtoriaid sy'n addysgu am chwarae a gwaith chwarae.

### Yr hyn ddywedodd plant a phobl ifanc oedd yn rhan o'r adolygiad

- Dylai gweithwyr chwarae fod wedi'u cofrestru fel bod plant a phobl ifanc yn gwybod eu bod wedi'u hyfforddi'n gywir a'i bod hi'n iawn iddyn nhw weithio gyda phlant.
- Dylai gweithwyr chwarae gael eu hyfforddi i wneud eu swyddi.
- Dylid rhoi hyfforddiant i blant hŷn fel y gallant helpu gyda gwasanaethau chwarae ar gyfer plant iau.

### Argymhellion y grŵp llywio

**Argymhelliad 12: Datblygu isadeiledd strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu gwaith chwarae.**

Bydd hyn yn cefnogi datblygiad gyrfaoedd, hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer y gweithwyr chwarae sy'n ffurfio'r gweithlu gwaith chwarae.

**Argymhelliad 13: Sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer datblygu'r gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.**

Bydd hyn yn cefnogi trosglwyddo hyfforddiant ar gyfer pob person y mae eu gwaith yn effeithio ar chwarae plant, sy'n amrywio o weithwyr wyneb-yn-wyneb i lunwyr penderfyniadau strategol.



## Thema 6: Chwarae ac addysg

Mae'r thema hon am chwarae mewn ysgolion ac mae'n bwysig oherwydd bod plant yn treulio llawer o amser yn yr ysgol. Weithiau, dyma'r prif le y gall plant chwarae gyda'u ffrindiau.

### Am y thema hon

Mae ysgolion yn fannau pwysig ar gyfer chwarae. Mae amserau chwarae ac egwyl yn cynnig amser i blant ymlacio, rhedeg o gwmpas, chwarae a bod gyda'u ffrindiau. Mae amser chwarae mor bwysig fel na ddylid ei ddal yn ôl fel cosb.

Yn ogystal, mae gan chwarae rôl bwysig yng ngallu plant i ddysgu. Mae chwarae yn yr ysgol yn bwysig oherwydd ei fod yn helpu i gadw plant yn iach a hapus.

### Yr hyn ddywedodd plant a phobl ifanc oedd yn rhan o'r adolygiad

- Mae ysgolion yn fannau pwysig i blant chwarae a chwrdd â'u ffrindiau.
- Mae chwarae'n bwysig i bob oed, nid dim ond i blant ysgol gynradd.
- Dylai ysgolion neilltuo mwy o amser ar gyfer chwarae.

### Argymhellion y grŵp llywio

**Argymhelliad 14: Hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a'r defnydd o diroedd ysgol fel ased cymunedol ar gyfer chwarae trwy'r polisi ysgolion bro.**

Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ysgolion yn cydnabod eu rôl wrth hyrwyddo chwarae yn eu cymunedau lleol.

**Argymhelliad 15: Cynyddu a gwella amserau chwarae ac egwyl mewn ysgolion.**

Bydd hyn yn helpu i wneud profiad plant o amserau egwyl yn yr ysgol yn fwy chwareus. Bydd hefyd yn cynnwys annog ysgolion i warchod yr amser y maen nhw'n ei roi i blant chwarae.

Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

© Chwarae Cymru

Tachwedd 2023